

**Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr**  
Chief Officer (Governance)  
Prif Swyddog (Llywodraethu)



CS/NG

Dydd Iau, 4 Ionawr 2024

Sharon Thomas 01352 702324  
sharon.b.thomas@flintshire.gov.uk

At: Cyng Richard Lloyd (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge,  
Chris Bithell, Helen Brown, Paul Cunningham,  
Rob Davies, Adele Davies-Cooke, Carol Ellis,  
Gladys Healey, Dave Hughes, Paul Johnson,  
Richard Jones, Hilary McGuill, Ted Palmer,  
Mike Peers a Dan Rose

Annwyl Syr / Fadam

**RHYBUDD O GYFARFOD HYBRID**  
**PWYLLGOR CYNLLUNIO**  
**DYDD MERCHER, 10FED IONAWR, 2024** am **2.00 PM**

**\* Nodwch yr amser y bydd y cyfarfod yn dechrau**

Yn gywir

Steven Goodrum  
Rheolwr Gwasanaethau Democraidaidd

Sylwch: Gellir mynychu'r cyfarfod hwn naill ai wyneb yn wyneb yn Siambr Cyngor yr Arglwydd Barry Jones, Cyngor Sir y Fflint, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint neu ar-lein.

Gofynnwyd i siaradwyr cyhoeddus a hoffent gyfarch y Pwyllgor yn Gymraeg neu Saesneg.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd y ffrydio byw yn dod i ben pan fydd unrhyw eitemau cyfrinachol yn cael eu hystyried. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar <https://flintshire.publici.tv/core/portal/home>

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Gwasanaethau Democraidaidd ar 01352 702345.

## R H A G L E N

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD

3 SYLWADAU HWYR

4 COFNODION (Tudalennau 3 - 6)

**Pwrpas:** I gadarnhau, fel cofnod cywir gofnodion y cyfarfod ar 13 Rhagfyr 2023.

5 EITEMAU I'W GOHIRIO

6 MAE ADRODDIAD Y PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI)

**Pwrpas:** Mae adroddiad y Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd ac Economi) yn amgaeedig.

### ADRODDIAD Y PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI) AR GYFER Y PYLLGOR CYNLLUNIO 10 IONAWR 2024

Rhif yr eitem	Cyfeirnod y Ffeil	DISGRIFIAD
<b>Ceisiadau sy'n cael eu hadrodd er penderfyniad (C = Cymeradwyaeth, G = Gwrthod)</b>		
6.1	FUL/000246/23 - C	Cais llawn - Cadw a defnyddio strwythurau, offer a datblygiadau ategol presennol (yn cynnwys mynediad ffordd a thirlunio) gan ffurfio terfynell nwy'r Parlwr Du ar gyfer cludo carbon deuocsid a dymchwel/cael gwared ar strwythurau diangen yn y derfynell; adeiladu a defnyddio'r seilwaith newydd sydd ei angen ar gyfer gwasanaeth carbon deuocsid yn nherfynell nwy'r Parlwr Du; cadw a defnyddio'r bibell nwy 20 modfedd o ddiamedr bresennol, y pibellau cyddwysiad a cheblau cysylltiedig o derfynell nwy'r Parlwr Du at y marc Distyll Cymedrig ar gyfer cludo carbon deuocsid a gweithgareddau cysylltiedig; cael gwared ar fan caeedig y Falf Cau i Lawr sy'n gysylltiedig â'r bibell nwy 20 modfedd o ddiamedr bresennol o derfynell nwy'r Parlwr Du at y marc Distyll Cymedrig a gwaith adfer priodol; adeiladu a defnyddio dau gysylltiad opteg ffibr a thrydan 33kV o derfynell nwy'r Parlwr Du at y marc Distyll Cymedrig; ac adeiladu a defnyddio dau giosg a ffens gysylltiedig o'u hamgylch ar hy (Tudalennau 7 - 40)
6.2	FUL/000633/23 - C	Cais llawn - Adeiladu a gweithredu'r tair Gorsaf Falf wedi'u Blocio sy'n gysylltiedig â chynnig Biblinell Carbon Deuocsid HyNet ar dir ger Cornist Lane, y Fflint; Pentre Helygain, a thir ger Racecourse Lane, Babel (Tudalennau 41 - 72)

**Sylwch y gall fod 10 munud o egwyl yn y cyfarfod hwn os yw'n para fwy na dwy awr**